2.42

# CAN

# "BILLY FAIR PLAY."

Holl lowyr y dyffryn gwrandewch ar fy nghan,
Cewch hanes hen "*Billy Fair Play*" a'r glo man;
Gwell fyddai cytuno cyn elo'n rhy hen,
I fyn'd yn ddioedi i dori ei ên!
Dyma i chwi dro sy' 'nawr yn y fro,
Yw cadw dwy geiniog ar bob tynell lo.

Mae Billy yn ddiwyd, a gwedyd y gwir,
Yn sicr o sefyll i enill ei hur;
Craff yw ei ddau lygaid, mor danbaid a'r tan,
Fe â a pheth cnapau yn nghyd a'r glo man!

Y mae yr hen elyn yn llibyn fel llo,
Yn cadw dwy geiniog ar bob tynell lo;
Mae hyn yn rhy greulon i'r glewion wyr glan,
Ee ddylid ei saethu, neu'i daflu i dan!

Cam enw sydd arno yw "*Billy Fair Play,*"
Fe'i ganwyd, fe'i magwd yn Abercwm gau;
Mae yno er's llawer o amser yn awr,
Fel cwmwl i'n hatal i weled y *Wawr!*

Y mae wedi esgor a deor fel giar,
Ar lawer o dwyllwyr yn *Nghwm Aberdar,*
Rhy anhawdd rho'i enwau y drygau a wnaeth,
Y mae fel y Satan ei hunan neu'n waeth!

Mae'r glowyr yn tori glo'n galed o hyd,
Heb enill fawr arian, a'i gael ef i gyd;
Ac wrth gael ei bwyso mae'n myned yn llai,
Os holir p'am hyny, ar Billy mae'r bai!

Mae'r glowyr yn gweithio am rhy fach o bris
Mae Billy er hyny'n gwasgu yn is;
Bu amser ar lowyr, a hysbys yw im.
Buasent 'n ei chwalu a'i daflu i'r dim.

Mae canoedd o lowyr yn gweithio'n y cwm,
O eisiau cyfiawnder o lawer rhy lwm;
*Got nothing most coming to them on the pay,*
*The money is gone with old "Billy Fair Play."*

Gosodwyd rhyw dwyllwr i dolli* y glo, [*To crop
Ni wnai Billy 'i hunan un truan eu tro—
Beth y'nt ond yspeilwyr y glowyr i gyd?
Daw dydd y cant ddyrnod angeuol yn nghyd.

Mae'r gweithwyr yn gollwng eu hysbryd i lawr,
Wrth wel'd yr oll ormes anghynes sy' 'nawr;
Nid oes modd i godi heb uno yn nghyd,
I wneuthur ein goreu 'gael Billy o'r byd.

Os ydyw yn dywyll nos erchyll yn awr,
Y mae er daioni ar dori y wawr;
Mae gobaith gwell amser ar gyfer y gwan,
Ac yna cawn ninau ein rheidiau i'n rhan.

Beth gwell fydd y Meistri o enill bob un
Y byd hwn, a cholli eu henaid eu hun?
Gwell iddynt na hyny droi Billy o'r byd,
A'r rhai sy'n gormesu a'n gwasgu i gyd.

X2CS 202534

Yn lle pob gorthrymder, cyfiawnder a f'o,
Heb son mwy am Billy, na tholli y glo;
Mae'r byd ddigon llydan, a rhan i bob rhyw,
O! paham, gan hyny, na chawn le i fyw?

Os holir pwy roddes y geiriau'n un sŵn,
Atebwch ei enw, "Hen Golier o'r Cwm,"
Yr hwn sydd yn tori glo mawr a glo mân,
Dewch, prynwch a thelwch i gyd am y gân.

HEN GOLIER O'R CWM.

---

# CAN NEWYDD

AR

# GRIBDDEILIAETH.

Chwi Fwynwyrs a Choliers yn gynes gwrandewch,
Yr hanes a gefais yn gywir a gewch,
Sef eithaf gwirionedd, heb wneuthur gwahan,
Achos cribddeilwyr yw testun y gân.

Hwy ant at y Meistr rhyw foreu mor fwyn,
I ofyn atebiad pwy bris oedd y mwyn;
Y Meistr atebodd, gan adrodd yn glau,
Mai coron a cheiniog i'r mwynwr 'rwy'n roi.

A Dick yn wr cyndyn, hen ffrolyn diffrwyth,
'N lle coron a cheiniog, rhodd bedwar ac wyth;
Ac felly yn twyllo y gweithiwr digwyn,
Trwy gadw pump ceiniog ar bob tynell o fwyn.

Fe aeth at ei ewyrth ryw foreu mor bur,
I ofyn ei gyngor—'rwy'n dweyd ond y gwir;
A'i ewyrth atebodd ei 'madrodd yn gwick,
Os yw yn dy bwer, O cadw nhw', Dick.

Ti weli dy ewyrth, trwy gelwydd a brad,
Yn byw yn wr enwog ar gefn y wlad;
Ac felly doi dithau wrth rodio'n yn y ma's,
Os gwneu di gynghorion yr hên darw glâs.

Pan ddelo dydd cyfrif, bydd Richard sut ddyn,
Yn galw y gweithwyr, a'i talu'n gytun;
Gan gudio'n ei lyfrau, a'i castio mor gwick,
I gyd ond y degwm, a hwnw gan Dick.

Pan ddaw y ddau eidion i gwrdd yn y man,
Bydd lleisiau dychrynllyd gan dda Tor-y-fan;
A Dick fydd yn crynu fel llô'n ymyl y llwyn,
Waith cadw pump ceiniog ar bob tynell o fwyn.

'Tai pawb trwy Forganwg 'run feddwl ag wyf,
Ni chelai'r rhai cyrnig ddim pori'n ein plwyf;
Ei danfon dros diroedd a moroedd sy'n faith,
A Dick, yr hên leidr, yn dâl am ei waith.

Yn hael, os bydd holi pwy luniodd y gân,
Atebwch yn union, mai Shoni mab Shan,
Sy'n byw ar y mynydd mor bles yn ei blas,
A'i ffryns yn mhob tyrfa yw'r da cyrnau glâs.

---

Joseph Williams, Argraffydd, Merthyr Tydfil.